**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MAP/JM/2209/19

Aelod Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA

21 Mehefin 2019

Annwyl Gydweithiwr

Yn Symud Cymru Ymlaen, fe ymrwymon ni i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n gweithio tuag at dalu costau gofal plant. Mae ein Cynnig Gofal Plant yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i'r teuluoedd hyn ar gyfer plant 3 a 4 oed am 48 wythnos y flwyddyn, gan adeiladu ar ddarpariaeth gyffredinol addysg gynnar i bob plentyn 3 a 4 oed ledled Cymru.

Rydym wedi bod yn treialu'r Cynnig mewn rhannau o Gymru ers mis Medi 2017 ac rwyf wrth fy modd ei fod bellach ar gael ledled Cymru, flwyddyn yn gynharach na'r disgwyl. Gan weithio gyda'n partneriaid awdurdod lleol mae gennym bellach dros 13,900 o blant yn defnyddio'r Cynnig. Mae hynny'n golygu bod 13,900 o deuluoedd yn elwa o'r cymorth pwysig hwn. Gwyddom o'r gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf o gyflawni am yr effaith y mae hyn eisoes yn ei chael o ran cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i rieni, y gallu i reoli eu cydbwysedd bywyd a gwaith yn well a'r manteision i deuluoedd sy'n dod o lefelau uwch o incwm gwario.

Yn bwysig, rydym hefyd yn gweld manteision i ddarparwyr gofal plant. Yn 2018, cyhoeddwyd arolwg economaidd o'r sector gofal plant, a oedd yn dangos yn glir pa mor agos at y dibyn y mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn gweithredu o ran cynaliadwyedd. O ystyried y rôl y mae gofal plant yn ei chwarae wrth gefnogi economi ehangach Cymru, ac mewn cyflogaeth uniongyrchol, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'r sector i fynd i'r afael â'r materion hyn ac rwy'n falch iawn bod llawer o'r darparwyr hynny sy'n cyflwyno'r Cynnig yn nodi effeithiau cadarnhaol ar eu busnesau, gyda chyfleoedd i ehangu a thyfu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dros y misoedd nesaf byddwn yn darparu mwy o ddeunyddiau i awdurdodau lleol i hyrwyddo'r Cynnig yn eu hardaloedd, ond gwn y byddwch am sicrhau bod eich etholwyr yn gallu cael gafael ar yr arian hwn hefyd. Rwy'n cynnwys rhai deunyddiau ar gyfer rhieni a darparwyr gofal plant gyda'r llythyr hwn y gallwch eu defnyddio i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Bydd copïau pellach ar gael gan y Llyfrgell Ymchwil Aelodau, yn Nhŷ Hywel.

Dylai pob cais ar gyfer y Cynnig gael ei gyfeirio trwy awdurdodau lleol, ac mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan neu gan fy swyddogion y gellir eu cyrraedd ar e-bost trwy TrafodGofalPlant@llyw.cymru.

Yn gywir



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

# Cwestiynau cyffredin i rieni

**Beth yw'r cynnig gofal plant?** Bydd y cynnig gofal plant newydd yn darparu cyfanswm cyfunol o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer plant 3 a 4 oed i rieni cymwys sy'n gweithio. Rydym yn rhedeg cynllun peilot ar y cynnig hwn ar draws Cymru.

**Beth y mae'n ei olygu i mi fel rhiant?** Os oes gennych chi blentyn sy'n 3 neu'n 4 oed, mae hawl gennych i gael o leiaf deng awr yr wythnos o addysg gynnar (sy'n cael ei adnabod hefyd fel Meithrin Cyfnod Sylfaen) i'ch plentyn yn ystod tymhorau ysgol. Os ydych chi'n gweithio, gallech chi gael oriau ychwanegol o ofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth hefyd, fel eich bod yn cael cyfanswm o 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar yr wythnos am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r 48 wythnos yn cynnwys 39 wythnos o ddarpariaeth gyfunol o addysg a gofal plant yn ystod tymhorau ysgol a 9 wythnos o ddarpariaeth 'adeg gwyliau' y tu allan i dymhorau ysgol. Bryd hynny, hawl i gael hyd at 30 awr o ofal plant sydd gennych.

**Beth yw addysg gynnar?** Mae hawl gan bob plentyn i gael **addysg gynnar** (Meithrin Cyfnod Sylfaen) o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 3 oed. Mae pob awdurdod lleol yn darparu isafswm o 10 awr o addysg gynnar yr wythnos, naill yn yr ysgol leol neu mewn lleoliad fel grŵp chwarae, meithrinfa ddydd neu Gylch Meithrin. Yn ystod y tymor ysgol, bydd yr addysg gynnar yma yn rhan o 30 awr y cynnig gofal plant. Yn ystod gwyliau ysgol, pan nad oes addysg gynnar, bydd y cynnig yn rhoi 30 awr o ofal plant i rieni cymwys am gyfnod o hyd at 9 wythnos. Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol eich helpu i ddarganfod darpariaeth cofrestredig sy'n ateb eich gofynion. I gael gwybodaeth ynghylch y Cyfnod Sylfaen cliciwch yma neu chwiliwch am Meithrin Cyfnod Sylfaen ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru.

**Sut y byddaf yn gwybod a ydw i'n gymwys?** Mae rhieni plant 3 a 4 oed yn gallu manteisio ar yr hawl i gael addysg gynnar. Rydych chi'n gymwys i gael y gofal plant ychwanegol os oes gennych blentyn o fewn yr ystod oedran, a'ch bod yn ennill ar gyfartaledd isafswm wythnosol cyfwerth ag 16 awr neu ragor ar isafswm cyflog cenedlaethol neu ar gyflog byw cenedlaethol ond llai na £100,000 y flwyddyn. Os yr ydych yn deulu unig riant bydd yn rhaid i chi fod mewn gwaith a mewn teulu dau riant, mae angen i'r ddau ohonoch fod yn gweithio. Os yr ydych yn hunangyflogedig neu ar gontract dim oriau bydd disgwyl ichi brofi hyn drwy gyflwyno dogfennau perthnasol. Mae'n bosibl bod rhieni maeth a gofalwyr sy'n berthnasau yn gymwys hefyd. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael rhagor o wybodaeth.

**Ga i ddewis unrhyw ddarparwr gofal plant?** Gallwch, ar yr amod bod y darparwr hwnnw yn hapus i fod yn rhan o'r cynnig a'i fod wedi ei gofrestru ag AGC (AGGCC gynt) neu â'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (yr arolygiaethau ar gyfer lleoliadau gofal plant). Gallant wneud hynny drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol. Gall y darparwyr gofal plant fod wedi eu lleoli y tu allan i'ch ardal, y

tu allan i’ch sir,  neu fod yn Lloegr hyd yn oed, os ydych chi’n byw ar y ffin. Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran pa bryd y gallwch ddefnyddio'r oriau gofal plant ychwanegol, ond eich cyfrifoldeb chi yw dod o hyd i ddarparwr gofal plant sy'n addas i anghenion eich teulu chi.  Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich helpu drwy ddarparu gwybodaeth ar yr holl leoliadau gofal plant.

**Beth os oes gan fy mhlentyn anghenion ychwanegol?** Mae’r cynnig ar gael i bob rhiant cymwys, ond efallai y byddwch chi a/neu eich darparwr yn dymuno cysylltu â’ch awdurdod lleol ac fe ddylai allu rhoi cyngor i chi a manylion unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael.

**Fydd angen imi dalu am unrhyw beth?** Mae'r cynnig gofal plant yn cyllido uchafswm o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yr wythnos. Mae’r arian gan y Llywodraeth ar gyfer yr addysg a'r gofal y mae'r gweithwyr proffesiynol yn y  lleoliad yn eu darparu. Nid yw'n cynnwys bwyd, cludiant na gweithgareddau oddi ar y safle sy'n gofyn am dâl ychwanegol, a bydd eich darparwr yn gallu codi tâl arnoch chi am y pethau hyn. Bydd y costau cludiant yn ddibynnol ar leoliad eich cartref a pha mor bell y mae angen iddynt deithio,  Ni ddylai darparwyr godi mwy na £7.50 y diwrnod am fwyd neu £4.75 am hanner diwrnod (yn cynnwys cinio).

**Oes rhaid imi ddefnyddio'r 30 awr yr wythnos yn llwyr?** Nac oes. Chi sy’n dewis faint o'r 30 awr yr ydych chi am eu defnyddio. Fodd bynnag, os na fyddwch chi’n defnyddio pob un o'r 30 awr mewn wythnos, ni allwch chi ddefnyddio'r oriau sy'n weddill mewn wythnos arall. Ni allwch gyfnewid oriau addysg am oriau gofal plant, nac oriau gofal plant am oriau addysg. Gallwch chi dalu am oriau ychwanegol o ofal plant eich hun yn seiliedig ar gontract preifat rhyngoch chi a'ch darparwr gofal plant.

**Sut ydw i'n gwneud cais?** Gallwch wneud cais am y cynnig, gan gynnwys y lle addysg gynnar y mae hawl gennych ei gael, drwy eich awdurdod lleol. Os nad ydych yn gymwys i gael yr oriau ychwanegol o ofal plant, gallwch wneud cais am eich lle addysg gynnar drwy eich awdurdod lleol. Cysylltwch â’ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael rhagor o wybodaeth.



# Y Cynnig Gofal Plant Cwestiynau ac Atebion i Ddarparwyr

**Beth yw'r cynnig gofal plant?** Bydd y cynnig gofal plant yn golygu y bydd rhieni sy'n gweithio yn gymwys i dderbyn 30 awr o addysg gynnar a gofal plant ar gyfer eu plant 3 a 4 mlwydd oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bydd y cynnig yn datblygu'r hawl bresennol i blant gael addysg gynnar (cyfeirir at hyn fel Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen weithiau) yn ystod tymhorau ysgol, gan gynnig 30 awr o ofal plant yn ystod 9 wythnos o'r gwyliau ysgol.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi, fel darparwr?** Cyn belled ag eich bod wedi cofrestru gyda AGC (AGGCC gynt) neu'r corff cyfatebol yn Lloegr, gallech gael cyllid gan eich awdurdod lleol ar gyfer y plant 3 a 4 oed sy'n manteisio ar y cynnig yn eich lleoliad chi.

**Oes rhaid imi ddarparu'r Cyfnod Sylfaen er mwyn darparu elfen gofal plant y cynnig?** Nac oes. Bydd rhai plant yn parhau i gael addysg gynnar mewn lleoliadau a gynhelir, neu mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir nad ydynt yn darparu'r cynnig. Nid oes angen i ddarparwyr gofal plant ddarparu addysg gynnar ac elfennau gofal plant y cynnig fel ei gilydd. I gael gwybodaeth am y Cyfnod sylfaen, cliciwch yma neu chwiliwch am Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru.

**Oes rhaid imi allu darparu'r cynnig am 48 wythnos y flwyddyn i gymryd rhan?** Nac oes. Gall rhieni fanteisio ar y cynnig drwy ddarparwyr gwahanol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Gall darparwyr nad ydynt ond yn cynnig darpariaeth yn ystod y tymor, neu ddim ond yn ystod gwyliau'r ysgol barhau i ddarparu'r cynnig.

**Oes angen i mi fod ar agor am 30 awr bob wythnos er mwyn cymryd rhan?** Nac oes. Gall rhieni ddefnyddio mwy nag un darparwr ar gyfer eu horiau.

**Faint fyddaf i'n cael fy nhalu?** Bydd pob darparwr yn cael £4.50 yr awr ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn yr elfen gofal plant o'r cynnig. Awdurdodau lleol sy'n penderfynu cyfraddau tâl ar gyfer elfen addysg gynnar y cynnig.

**Sut allaf gofrestru i gymryd rhan yn y Cynnig Gofal Plant a sut allaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Cynnig?** Dylech gysylltu â'ch Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i gael manylion llawn y Cynnig a sut i gofrestru fel darparwr.

**Beth sy'n digwydd os oes gan blentyn anghenion ychwanegol na allaf ddarparu ar eu cyfer?** Dylech gysylltu â'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n gallu darparu cyngor a manylion unrhyw gymorth ychwanegol sydd ar gael.

**Gaf i godi tâl ychwanegol ar y rhieni?** Na chewch. Ni chewch godi tâl ychwanegol fesul awr os byddech yn codi mwy na £4.50 yr awr yn arferol.

**Beth sy'n digwydd os dwi'n codi tâl am sesiynau yn hytrach nag oriau fel arfer?** Os ydych chi'n codi tâl ar rieni am ofal plant am ddiwrnod llawn neu hanner diwrnod, bydd y cynnig gofal plant yn ariannu nifer yr oriau mewn sesiwn. Er enghraifft, os ydych chi'n codi cyfradd diwrnod llawn fel arfer ar gyfer plant sy'n mynychu rhwng 8-6, bydd y cynnig yn talu £4.50 am 10 awr, a bydd y rhiant wedi defnyddio 10 awr o'i hawl wythnosol. Nid yw'n gwneud gwahaniaeth os yw rhiant yn gollwng ei blentyn yn hwyr neu'n ei gasglu yn gynnar.

**Gaf i godi tâl am fwyd a gweithgareddau ychwanegol?** Cewch. Os oes angen, cewch godi tâl ar rieni am elfennau ychwanegol fel bwyd, cludiant a gweithgareddau i ffwrdd o'r safle sy'n arwain at gostau ychwanegol. Canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi tâl ychwanegol am sesiwn dydd llawn ( tua 10 awr) yw na ddylid codi mwy na £7.50 y dydd ar rieni ( byddai hyn yn cynnwys tri phryd bwyd am £2 yr un a dau fyrbryd am 75c yr un) . Am sesiwn gofal hanner diwrnod ( tua 5.5. awr) ni ddylid codi tâl o fwy na £4.75 ar rieni ( dau bryd bwyd am £2 yr un, ac un byrbryd am 75c yr un) . Mewn perthynas â gofal sesiynol lle na ddarperir pryd bwyd, dim ond byrbryd, y canllaw ydi na ddylid codi tâl ar rieni o fwy na 75c y dydd. Ni ddylai darparwyr godi tâl ar rieni sy'n manteisio ar y cynnig am unrhyw elfennau ychwanegol na'r hyn y maent yn codi tâl amdano ar rieni nad ydynt yn manteisio ar y cynnig. Bydd unrhyw ddarparwr sy'n gwneud hynny yn ymddwyn yn groes i'r contract.

**Sut fyddaf i'n cael fy nhalu?** Dylech hawlio cyllid am yr oriau y mae plentyn wedi cofrestru gyda chi o dan y cynnig gan eich awdurdod lleol.

**Beth sy'n digwydd os nad yw plentyn yn mynychu?** Os nad yw plentyn yn gallu mynychu sesiwn sydd wedi'i harchebu oherwydd rheswm fel salwch, byddwch chi'n dal i gael eich talu am yr oriau a archebwyd. Fodd bynnag, os yw rhieni yn archebu oriau nad yw'r plentyn yn eu mynychu yn gyson, bydd angen i chi hysbysu'ch awdurdod lleol.

